Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# BWRSARIAETH GIG CYMRU AR GYFER CYRSIAU GOFAL IECHYD

## Cwestiynau Cyffredin

*Ionawr 2026*

***Nid yw'r Cwestiynau Cyffredin hyn yn berthnasol i gyrsiau meddygaeth na deintyddiaeth.***



*Adran 1. Gwneud cais am y Fwrsariaeth ac ymholiadau wrth astudio*

*Adran 2. Recriwtio yn ystod eich blwyddyn olaf ac wrth weithio*

*Adran 3. Cydymffurfio â'r Telerau ac Amodau*

*Adran 4. Gwneud cais am adolygiad o'ch amgylchiadau.*

## Cyflwyniad:

Diben Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru yw rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg iechyd a'u cymell i weithio yn y sector gofal iechyd yng Nghymru ar ôl cymhwyso. Mae'r Cynllun ar gael i fyfyrwyr sydd wedi cael cynnig lleoedd ar gyrsiau addysg iechyd yn unol â Thelerau ac Amodau'r Cytundeb, sydd i'w gweld yma Telerau ac Amodau Bwrsariaeth GIG Cymru.

Yn y ddogfen hon, fe welwch atebion i gwestiynau cyffredin ynglŷn â Chynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

Os na allwch chi ddod o hyd i'r ateb i'ch ymholiad yn y ddogfen hon, ceir nifer o ddolenni defnyddiol yn Atodiad 1.

Polisi gan Lywodraeth Cymru a gaiff ei reoli gan ddau sefydliad gwahanol yw Bwrsariaeth GIG Cymru.

Y Gwasanaeth Dyfarniadau Myfyrwyr o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru sy'n rheoli ceisiadau am y Fwrsariaeth, gan gynnwys cymhwysedd a chyfrifo faint y gall fod gennych hawl i'w gael.

Tîm y Fwrsariaeth yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) sy'n rheoli materion a all godi y tu hwnt i gais arferol, fel myfyriwr yn newid i gwrs gwahanol, a chydymffurfiaeth â thelerau'r Fwrsariaeth, fel yr ymrwymiad i weithio yng Nghymru.

Gweler Atodiad 2 am restr o gyrsiau priodol y bydd yn rhaid i chi eu hystyried neu fod wedi cael eich derbyn arnynt er mwyn bod yn gymwys i wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

## *Adran 1. Eich Cymhwysedd a'ch Cais*

1. **Pwy all wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?**

   I fod yn gymwys ar gyfer Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru, rhaid i chi gael eich derbyn ar gyfer lle a ariennir gan GIG Cymru ar gwrs amser llawn neu ran-amser yng Nghymru, a restrir yn Atodiad 2. I weld Telerau ac Amodau'r Cynllun Bwrsariaeth, cliciwch yma: Bwrsariaeth GIG Cymru.

2. **Os nad wyf yn un o ddinasyddion y DU, a allaf wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?**

   Dim ond os yw'r canlynol yn wir amdanoch y gallwch wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru

   - Rydych yn un o wladolion y DU neu wedi cael caniatâd amhenodol i aros yn y DU
   - Rydych yn un o wladolion Iwerddon neu wedi cael caniatâd amhenodol i aros yn Iwerddon

   Nid yw myfyrwyr rhyngwladol yn gymwys i wneud cais. Nid yw ymgeiswyr tramor heb statws preswylwyr sefydlog yn gymwys i gael lleoedd wedi'u comisiynu ar raglenni gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru ac felly ni allant wneud cais am gyllid drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. Gellir gwneud trefniadau i gomisiynu myfyrwyr rhyngwladol mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion y gweithlu ond ni chânt eu hariannu drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae Prosiect Myfyrwyr Nyrsio Cyn-gofrestru Rhyngwladol ar gael. Dilynwch y ddolen i weld y manylion: Prosiect Myfyrwyr Nyrsio Cyn-gofrestru Rhyngwladol.

3. **A oes rhaid i mi fyw yng Nghymru i gael cymorth drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?**

   Nac oes. Nid oes rhaid i chi fyw yng Nghymru i gael cymorth drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. Gallwch wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru os ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn unol â'r ymateb i gwestiwn 2. Bydd angen i chi ymrwymo i astudio yng Nghymru drwy gydol y cwrs a gweithio yng Nghymru am gyfnod penodedig ar ôl cwblhau eich cwrs. Er enghraifft, cyfnod o ddwy flynedd os bydd y cwrs yn para tair blynedd neu 18 mis os bydd y cwrs yn para dwy flynedd. Beth bynnag, dylid dechrau cyflogaeth o fewn tri mis i gwblhau'r cwrs.

4. **Rwy'n byw yng Nghymru ac rwyf am astudio y tu allan i Gymru; a allaf gael cymorth drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?**

   Na allwch. Dim ond i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio yng Nghymru ac sydd wedi ymrwymo i weithio yng Nghymru am y 'cyfnod gofynnol' ar ôl cwblhau'r cwrs, yn unol â'r ymateb i gwestiwn 3, y mae Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru ar gael.

5. **Rwyf eisoes yn cael cyllid gan y gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr (benthyciad i fyfyrwyr) ar gyfer fy nghwrs gofal iechyd; a allaf optio i mewn i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru o hyd?**

Gallwch, ond bydd yn rhaid i chi gwblhau eich cais am Fwrsariaeth GIG Cymru o fewn y 10 wythnos cyntaf i **ddyddiad dechrau** eich cwrs. Os caiff eich cais am Fwrsariaeth GIG Cymru ei dderbyn, bydd yn rhaid i chi siarad â'ch corff ariannu Cyllid Myfyrwyr a fydd yn addasu eich hawl i gael cymorth statudol i fyfyrwyr yn unol â hynny. Bydd eich corff ariannu Cyllid Myfyrwyr hefyd yn cadarnhau p'un a fydd angen i chi ad-dalu unrhyw fenthyciadau a grantiau i fyfyrwyr sydd eisoes wedi cael eu talu i chi ai peidio.

Gall myfyrwyr cymwys amser llawn sy'n hanu o Gymru ac sy'n cael Bwrsariaeth GIG Cymru gael y benthyciad cynhaliaeth llawn gan Cyllid Myfyrwyr Cymru; mae'n bosibl y bydd unrhyw ymgeiswyr eraill o'r DU yn gymwys i gael y benthyciad cynhaliaeth i fyfyrwyr ar gyfradd is gan eu priod gyrff ariannu Cyllid Myfyrwyr, a byddai angen iddynt siarad â nhw'n uniongyrchol.

6. **Sut mae gwneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?**

Gallwch wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru drwy ddilyn y ddolen isod cyn gynted ag y byddwch wedi cael cynnig lle pendant gan eich dewis Brifysgol. Rydym yn eich cynghori i wneud cais cyn gynted â phosibl ond gallwch wneud cais o fewn 10 wythnos i ddyddiad dechrau'r cwrs. **Ni chaiff eich cais ei dderbyn ar ôl y terfyn amser 10 wythnos.** Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais drwy ddilyn y ddolen ganlynol – Sut i wneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru.

7. **Faint o gyllid y gallaf ei gael drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?**

Mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael y cyllid canlynol bob blwyddyn academaidd:

- Grant o £1000 nad yw'n dibynnu ar brawf modd
- Bwrsariaeth sy'n dibynnu ar brawf modd
- Ffioedd dysgu
- Lwfansau ychwanegol, h.y. Lwfans Dibynyddion a Lwfans Dysgu i Rieni, Lwfans Gofal Plant, Lwfans i Fyfyrwyr Anabl
- Naill ai grant cynhaliaeth llawn y benthyciad i fyfyrwyr (myfyrwyr sy'n hanu o Gymru) neu fenthyciad cynhaliaeth ar gyfradd is i wladolion eraill y DU

Mae rhagor o fanylion am y taliadau sydd ar gael i'w gweld yma Canllaw i Ddeall Bwrsariaeth GIG Cymru.

8. **Beth yw ystyr 'sy'n dibynnu ar brawf modd' ac 'nad yw'n dibynnu ar brawf modd'?**

Caiff yr elfen o'r Fwrsariaeth sy'n dibynnu ar brawf modd ei hasesu yn erbyn cyfanswm incwm trethadwy'r aelwyd, y bydd tystiolaeth ohono yn y dogfennau ategol a roddir i dîm y Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr. Os byddwch yn gwneud cais am yr elfen sy'n dibynnu ar brawf modd, bydd gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth o incwm eich aelwyd. Gall hyn olygu incwm eich rhieni, neu eich incwm chi a'ch cymar neu'ch partner, yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'ch trefniadau byw.

Ni chaiff y grant nad yw'n dibynnu ar brawf modd ei asesu yn erbyn unrhyw incwm trethadwy ac mae'n grant a fydd yn daladwy os caiff yr holl feini prawf cymhwysedd eraill eu bodloni.

9. **A allaf wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru os wyf wedi cwblhau gradd israddedig o'r blaen?**

Gallwch, ond dim ond os nad ydych wedi cael cyllid drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru o'r blaen y byddwch yn gymwys. Bydd myfyrwyr yn gymwys i gael hyd at dair blynedd o gyllid drwy Fwrsariaeth GIG Cymru (oni fydd amgylchiadau esgusodol wedi'u cadarnhau gan y Brifysgol).

Os na fyddwch yn gymwys i wneud cais am y Fwrsariaeth, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i wneud cais i Cyllid Myfyrwyr Cymru am fenthyciad i fyfyrwyr. Efallai y bydd unrhyw ymgeiswyr eraill o'r DU yn gymwys i gael benthyciad cynhaliaeth ar gyfradd is gan y corff ariannu Cyllid Myfyrwyr o'u gwlad gartref.

10. **Cefais Fwrsariaeth GIG Cymru o'r blaen, ond ni chwblheais fy nghwrs GIG; a allaf wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru er mwyn cwblhau fy nghwrs o hyd?**

Gallwch, ond bydd y swm y gallwch ei gael drwy Fwrsariaeth y GIG yn dibynnu ar unrhyw gyllid sy'n weddill na chafodd ei dalu o'r blaen.

Er enghraifft, myfyriwr a ddechreuodd ei gwrs cyntaf ym mis Medi 2023 ond a dynnodd yn ôl ym mis Tachwedd 2023. Cafodd y myfyriwr dri mis o daliadau cynhaliaeth y Fwrsariaeth ond yna

penderfynodd ddechrau cwrs arall ym mis Medi 2024. Gan y byddai ffioedd dysgu'r myfyriwr wedi cael eu talu ar gyfer y flwyddyn academaidd lawn, dim ond am ddwy flynedd arall o gyllid y Fwrsariaeth y byddai'n gymwys. Dim ond ar gyfer blynyddoedd llawn y caiff taliadau cynhaliaeth eu gwneud, felly ni fyddai'r myfyriwr yn gymwys i gael y taliadau cynhaliaeth sy'n weddill am y flwyddyn na wnaeth ei chwblhau.

Dim ond ar gyfer blynyddoedd diweddarach y cwrs newydd y byddai taliadau unrhyw flynyddoedd cymwys sy'n weddill yn cael eu dyfarnu. Er enghraifft, os dyfarnwyd blwyddyn o Fwrsariaeth i chi ar gyfer blwyddyn gyntaf y cwrs na wnaethoch ei gwblhau, bydd yn ofynnol i chi ariannu blwyddyn gyntaf eich cwrs newydd eich hun, ac yna wneud cais am y Fwrsariaeth ar gyfer ail a thrydedd flwyddyn eich cwrs newydd.

**11. A allaf wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru os wyf wedi cwblhau gradd ôl-raddedig o'r blaen?**

Gallwch, ond dim ond os nad ydych wedi cael cyllid drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru o'r blaen y byddwch yn gymwys. Bydd myfyrwyr yn gymwys i gael hyd at dair blynedd o gyllid drwy Fwrsariaeth GIG Cymru (oni fydd amgylchiadau esgusodol wedi'u cadarnhau gan y Brifysgol).

**12. A allaf wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru er mwyn cwblhau cwrs ôl-raddedig?**

Os nad ydych wedi cael tair blynedd o gyllid drwy Fwrsariaeth GIG Cymru o'r blaen a'ch bod yn astudio ar raglen ôl-raddedig a ariennir gan y GIG (gweler Atodiad 2), e.e. rhaglenni MSc Nyrsio/Diploma Nyrsio i Raddedigion, Diploma Deieteg i Raddedigion a Diploma Therapi Galwedigaethol i Raddedigion, byddwch yn gymwys i wneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru. Ni fyddwch yn gymwys i wneud cais am y benthyciad cynhaliaeth i israddedigion na'r benthyciad i fyfyrwyr meistr ôl-raddedig gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os dyfernir Bwrsariaeth GIG Cymru i chi. (Pwy sy'n gymwys i gael cyllid gradd Meistr ôl-raddedig | Cyllid Myfyrwyr Cymru)

Dylai pob ymgeisydd arall o'r DU edrych i weld a yw'n gymwys i gael cymorth statudol i fyfyrwyr gan y corff ariannu Cyllid Myfyrwyr o'i wlad gartref.

13. **A yw Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru yn caniatáu i mi drosglwyddo i gwrs arall yn yr un Brifysgol?**

Ydy, ond bydd yn rhaid i chi fod wedi dod i gytundeb ar hyn gyda'ch prifysgol a'r comisiynydd (AaGIC) ymlaen llaw. Os bydd eich cwrs newydd yn un a ariennir gan GIG Cymru (gweler Atodiad 2), gall eich cyllid barhau. Os na fydd y cwrs yn un a ariennir gan GIG Cymru, neu os bydd yr holl leoedd a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru wedi'u llenwi, cewch eich dynodi'n fyfyriwr sydd wedi gadael ei gwrs ac ni fyddwch yn gymwys i gael cyllid y Fwrsariaeth mwyach. Gweler cymal 7 Telerau ac Amodau'r Fwrsariaeth.

14. **A yw Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru yn caniatáu i mi drosglwyddo i gwrs/i Brifysgol arall yn ystod fy nghwrs?**

Ydy, ond bydd yn rhaid i'r ddwy brifysgol a'r comisiynydd (AaGIC) gytuno ar hyn ymlaen llaw. Os bydd eich cwrs yn un a ariennir gan GIG Cymru (gweler Atodiad 2) ac a gynhelir gan brifysgol yng Nghymru, gall eich cyllid barhau. Os bydd y cwrs y tu allan i Gymru neu'n un na chaiff ei ariannu gan GIG Cymru, neu os bydd yr holl leoedd a gomisiynir ar gwrs a ariennir gan GIG Cymru mewn prifysgol yng Nghymru wedi'u llenwi, cewch eich dynodi'n fyfyriwr sydd wedi gadael ei gwrs. Bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi rhoi gwybod i'ch prifysgol bresennol am eich penderfyniad i drosglwyddo. Os na fydd y cwrs newydd yn eich prifysgol newydd yn un a ariennir gan GIG Cymru, daw taliadau'r Fwrsariaeth i ben. **Eich cyfrifoldeb chi fydd rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr os byddwch yn parhau i gael taliadau'r Fwrsariaeth ar ôl i chi dynnu'n ôl. Os na wnewch hynny, bydd yn ofynnol i chi ad-dalu unrhyw gyllid a gewch drwy gamgymeriad ar ôl y dyddiad y gwnaethoch dynnu'n ôl o'r rhaglen.**

Rhaid i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru roi gwybod i Cyllid Myfyrwyr Cymru os byddant yn trosglwyddo i gwrs neu brifysgol wahanol. Rhaid i chi hefyd roi gwybod i Cyllid Myfyrwyr Cymru os byddwch yn tynnu'n ôl, er mwyn gwneud yn siŵr na chaiff mwy o gyllid na'ch hawl statudol ei dalu i chi.

Rhaid i bob ymgeisydd arall o'r DU roi gwybod i'r corff cyllido o'i wlad gartref os bydd yn trosglwyddo neu'n tynnu'n ôl.

15. **A allaf newid fy meddwl ac optio allan o Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?**

Gallwch, ond dim ond 10 wythnos a fydd gennych ar ôl dechrau eich cwrs i newid eich meddwl. Dylech gysylltu â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru cyn gynted â phosibl drwy e-bostio abm.sas@wales.nhs.uk i gadarnhau eich penderfyniad.

Ar ôl y terfyn amser 10 wythnos, ni fyddwch yn gallu newid eich trefniadau ariannu dan amgylchiadau arferol. Fodd bynnag, mewn achosion eithriadol, caiff eich cais i newid eich trefniadau ariannu ei ystyried. Os hoffech newid eich trefniadau ariannu, gofynnwch i'ch prifysgol e-bostio heiw.edcommissioning@wales.nhs.uk gan esbonio'r sail resymegol dros y newid yr hoffech ei wneud. Wedyn, caiff unrhyw achosion o'r fath eu hystyried fesul achos unigol a bydd AaGIC yn rhoi gwybod i chi beth yw ei benderfyniad.

Ni chaniateir i fyfyrwyr optio **i mewn** i'r Cynllun Bwrsariaeth ar ôl y terfyn amser 10 wythnos ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Yn gyffredinol, bydd y term 'amgylchiadau eithriadol' yn cyfeirio at y myfyrwyr hynny sy'n wynebu caledi ariannol sylweddol. Fel arfer, ni fydd myfyrwyr a oedd yn cael y benthyciad cynhaliaeth yn y flwyddyn academaidd flaenorol gan eu corff ariannu Cyllid Myfyrwyr, ac sy'n dal yn gymwys i wneud cais am y benthyciad ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, yn cael eu hystyried yn fyfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol sylweddol.

Byddai angen i unrhyw fyfyriwr sy'n ystyried ei fod yn wynebu caledi ariannol sylweddol gyflwyno tystiolaeth i ddangos hyn a bodloni nifer o feini prawf er mwyn cael ei ystyried fel rhan o broses apelio.

16. **Os byddaf yn gadael y cwrs gofal iechyd a ariennir gan y GIG (oherwydd methiant academaidd, methiant ar leoliad, mater sy'n ymwneud â ffitrwydd i ymarfer neu salwch) cyn gorffen y cwrs, a fydd yn rhaid i mi ad-dalu'r cyllid y byddaf wedi'i gael drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?**

Yn unol â Thelerau ac Amodau GIG Cymru, os na fyddwch yn cwblhau eich cwrs, ni fydd yn rhaid i chi ad-dalu'r cyllid am yr amser y byddwch wedi'i dreulio ar y cwrs. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Am na fyddwch wedi cwblhau eich cwrs, ni fyddwch yn gymwys i gael eich cofrestru i weithio fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

- Os byddwch yn tynnu'n ôl yn ystod eich blwyddyn olaf ac yn cwblhau eich cwrs yn rhywle arall yn nes ymlaen, bydd yn rhaid i chi ddychwelyd y ffioedd y byddwch wedi'u cael.

Os byddwch yn tynnu'n ôl ar ganol blwyddyn academaidd, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i chi ad-dalu unrhyw daliadau Bwrsariaeth neu fenthyciad y byddwch wedi'u cael mewn perthynas â'r cyfnod ar ôl i chi dynnu'n ôl.

**17. Mae angen i mi ail-wneud blwyddyn o fy nghwrs gofal iechyd a ariennir gan Fwrsariaeth GIG Cymru; a allaf gael y Fwrsariaeth o hyd?**

Os bydd angen i chi ymgymryd â blynyddoedd ychwanegol er mwyn cwblhau eich cwrs, bydd y cyllid sydd ar gael i chi yn dibynnu ar eich amgylchiadau:

- **Ffactorau lliniarol (wedi'u cadarnhau gan eich prifysgol):** Os bydd angen amser ychwanegol arnoch oherwydd ffactorau lliniarol, bydd eich prifysgol yn cysylltu ag AaGIC i ofyn am estyniad ar eich cyllid Bwrsariaeth. Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau lliniarol mae salwch a phrofedigaeth deuluol agos. Os oes angen i chi ailadrodd neu ailsefyll unrhyw elfen o'ch cwrs oherwydd amgylchiadau lliniarol, gall eich prifysgol wneud cais i Addysg a Gwella Iechyd Cymru am estyniad i'ch bwrsari i dalu'r amser sydd ei angen ar gyfer hyn. Bydd angen i'ch prifysgol eich arwain chi trwy'r broses liniaru i wneud cais am hyn a bydd eich cais yn cael ei gadarnhau. Unwaith y bydd eich prifysgol wedi gofyn am ymestyn eich bwrsariaeth, bydd AaGIC yn adolygu'r cais hwn ac yn cadarnhau'r canlyniad o fewn 21 diwrnod gwaith. Bydd eich dyfarniad cynhaliaeth sy'n seiliedig ar brawf modd yn cael ei ymestyn. Ni all Addysg a Gwella Iechyd Cymru gymeradwyo unrhyw estyniad i gymorth bwrsari oherwydd methiant academaidd heb unrhyw dystiolaeth o amgylchiadau lliniarol. Ni ddisgwylir y byddai angen ffioedd dysgu ychwanegol ar gyfer estyniadau i raglenni oherwydd amgylchiadau lliniarol.
- **Methiant academaidd:** Os bydd angen amser ychwanegol arnoch i adennill elfennau a fethwyd o'r rhaglen, ni fyddwch yn gymwys i gael taliadau Bwrsariaeth ychwanegol ond efallai y byddwch yn gymwys i gael benthyciad gan y gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr. Bydd angen i'ch prifysgol wneud cais i chi gael eich rhyddhau o'r Fwrsariaeth os byddwch yn ail-wneud blwyddyn er mwyn eich galluogi i wneud cais am fenthyciad

**18. A allaf wneud cais am gyllid myfyrwyr a chyllid drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?**

Gallwch. Bydd myfyrwyr cymwys amser llawn sy’n hanu o Gymru ac sy’n cael Bwrsariaeth GIG Cymru ar gyfer eu rhaglenni a ariennir gan GIG Cymru yn gallu gwneud cais am y benthyciad cynhaliaeth llawn gan Cyllid Myfyrwyr Cymru yn ogystal â’u Bwrsariaeth GIG Cymru.

Gall myfyrwyr nad ydynt yn hanu o Gymru wneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru ond dylent gysylltu â'u priod gyrff ariannu Cyllid Myfyrwyr i gael cyngor pellach.

Gall myfyrwyr ar raglenni ôl-raddedig a ariennir gan GIG Cymru (gweler Atodiad 2) wneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru os na fyddant wedi cael Bwrsariaeth tair blynedd GIG Cymru o'r blaen. Ni fyddwch yn gymwys i wneud cais am y cyllid gradd Meistr ôl-raddedig gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os byddwch yn cael Bwrsariaeth GIG Cymru ar gyfer eich cwrs ôl-raddedig.

**19. Rwyf wedi penderfynu optio allan o Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru ac rwyf am wneud cais am y benthyciad cynhaliaeth llawn gan y gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr. Mae fy nghorff ariannu Cyllid Myfyrwyr yn dweud fy mod yn cael y Fwrsariaeth. Beth allaf ei wneud?**

Bydd gan fyfyrwyr 10 wythnos o ddechrau’r cwrs i optio i mewn neu **optio allan** o Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. Os na fyddwch yn dymuno cael Bwrsariaeth GIG Cymru a’ch bod yn cytuno i weithio yng Nghymru am y cyfnod gofynnol, bydd angen i chi optio allan o’r Cynllun Bwrsariaeth drwy greu cyfrif ar StudentLogin | NHSStudents. Bydd hyn yn creu cod yn awtomatig y bydd ei angen arnoch i wneud cais am fenthyciad gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

## *Adran 2. Gweithio’r Cyfnod Gofynnol a Recriwtio*

**20. Pa gymorth sydd ar gael er mwyn fy helpu i ddod o hyd i waith ar ddiwedd fy nghwrs?**

**Symleiddio (Y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr)**

Caiff myfyrwyr ar gyrsiau Nyrsio, Bydwreigiaeth, Cydymaith Meddygol ac ODP eu paru â swyddi gwag addas gan ddefnyddio proses o'r enw 'Symleiddio i Fyfyrwyr'.  Proses baru lle y gall myfyrwyr sydd wedi astudio yng Nghymru ddewis swyddi gwag ledled Cymru a gwneud cais amdanynt yw Symleiddio i Fyfyrwyr. Mae'r broses hon wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn. Tua chwe mis cyn i chi gwblhau eich cwrs, bydd Tîm Symleiddio i Fyfyrwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cysylltu â sefydliadau addysg uwch ac yn gweithio gyda myfyrwyr a byrddau iechyd i ddechrau ar y broses Symleiddio i Fyfyrwyr. Bydd hyn yn sicrhau y gall pob myfyriwr nodi ei ddewisiadau ar gyfer cyflogaeth ar ôl cwblhau ei gwrs.

## Recriwtio Agored

Bydd byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn pennu eu hanghenion gwasanaeth drwy gynlluniau gweithlu er mwyn iddynt allu recriwtio mewn ffordd sy'n sicrhau gwasanaethau hyfyw, diogel ac effeithiol yn eu hardaloedd. Bydd byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn cyhoeddi eu swyddi ar wefan y GIG (NHS Wales Jobs) drwy gydol y flwyddyn. Dylai myfyrwyr y Fwrsariaeth sydd ar gyrsiau Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Gofal Iechyd chwilio am swyddi drwy agor cyfrif ar wefan y GIG a dilyn y cyfarwyddiadau a'r broses gwneud cais yn yr hysbysebion.

Bydd byrddau iechyd yn cynnal ffeiriau swyddi a recriwtio er mwyn rhoi gwybod i raddedigion newydd am y cyfleoedd yn eu sefydliadau. Mae mynd i'r digwyddiadau hyn yn ffordd dda i fyfyrwyr ddysgu mwy am swyddi posibl a chwrdd â rheolwyr gwasanaethau. Mae gwefannau'r GIG yn cynnwys gwybodaeth am swyddi gwag a manylion cyswllt ar gyfer mynd ar drywydd unrhyw swyddi sydd o ddiddordeb.

Anogir myfyrwyr i achub ar bob cyfle i ymgysylltu â darpar gyflogwyr ynghylch pryd y caiff swyddi addas eu hysbysebu o bosibl, a dechrau gwneud cais cyn gynted ag y bo'n briodol ar gyfer y dyddiad y byddant yn cwblhau eu cyrsiau.

## Ffyrdd eraill o chwilio am swyddi

Gall myfyrwyr y Fwrsariaeth weithio y tu allan i'r GIG ar yr amod eu bod yn gweithio yng Nghymru ac yn y proffesiwn y maent wedi'u hyfforddi ar ei gyfer, ac yn gweithio o leiaf 22.5 awr yr wythnos. Mae gan awdurdodau lleol a chyflogwyr eraill y tu allan i'r GIG wefannau lle y caiff swyddi eu hysbysebu. Os bydd un o fyfyrwyr y Fwrsariaeth yn dilyn y llwybr hwn i gael swydd, byddai'n syniad da holi tîm Bwrsariaeth AaGIC i weld a yw'r rolau'n cydymffurfio â Thelerau ac Amodau Bwrsariaeth GIG Cymru. Os bydd myfyriwr graddedig sydd wedi cael y Fwrsariaeth yn bwriadu sefydlu ei fusnes ei hun ar gyfer gweithio'r cyfnod gofynnol, bydd yn rhaid iddo allu profi ei fod yn gweithio yng Nghymru ac yn y proffesiwn y mae wedi'i hyfforddi ynddo, am o leiaf 22.5 awr yr wythnos.

Mae gan AaGIC dudalen we benodol er mwyn helpu myfyrwyr ar gyrsiau Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Gofal Iechyd i ddod o hyd i swyddi. Mae gan y porth swyddi hwn gysylltiadau uniongyrchol â sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Porth Gyrfaoedd y GIG.

## 21. A fydd yn rhaid i mi weithio mewn rhan benodol o Gymru?

Ni fydd yn ofynnol i chi weithio mewn rhan benodol o Gymru ac, fel myfyriwr graddedig newydd, cewch eich annog i ddewis gwahanol rannau o Gymru i ddechrau eich gyrfa ynddynt. Byddai'n syniad da ystyried gwahanol fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd sy'n cyd-fynd â'ch dyheadau penodol, eich amgylchiadau personol a'ch cynlluniau ar gyfer y tymor hwy. Efallai nad eich swydd gyntaf ar ôl i chi gymhwyso fydd y rôl neu'r lleoliad o'ch dewis, ond bydd yn rhoi profiad i'ch galluogi i symud o fewn Cymru i ymgymryd â swyddi y byddwch yn dyheu amdanynt pan fyddant ar gael. Bydd modd gweithio i fwy nag un cyflogwr, yn enwedig os bydd eich proffesiwn yn defnyddio gwaith sesiynol. Holwch dîm Bwrsariaeth AaGIC a fydd yn gallu rhoi cyngor pellach i chi.

## 22. A allaf weithio oriau rhan-amser?

Er y byddem yn disgwyl i chi weithio amser llawn, rydym yn deall na fydd hyn bob amser yn bosibl oherwydd ymrwymiadau gofalu neu'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael. Er mwyn cyflawni telerau eich Bwrsariaeth, bydd yn rhaid i chi weithio o leiaf 22.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd drwy gydol eich cyfnod gofynnol. Mae hyn yn ofyniad sylfaenol ac ni fydd unrhyw oriau a weithir y tu hwnt i hyn yn cyfrannu at unrhyw gyfanswm blynyddol; bydd yn ofynnol i chi gwblhau eich

cyfnod gofynnol 18 mis neu 2 flynedd, yn dibynnu ar hyd eich cwrs, ni waeth faint o oriau y byddwch yn eu gweithio bob wythnos.

## 23. A fyddaf yn sicr o gael swydd?

Nid fydd y ffaith eich bod wedi cael y Fwrsariaeth yn golygu y byddwch yn sicr o gael cynnig swydd, yn enwedig mewn proffesiynau a lleoliadau lle mae llawer o alw a nifer cyfyngedig o swyddi gwag. Nod AaGIC a'i bartneriaid, mewn cydweithrediad â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, yw sicrhau bod digon o swyddi gwag ar gael, ond amgylchiadau lleol fydd y prif sbardun bob amser ar gyfer sicrhau bod digon o swyddi gwag yn bodoli, a bod y cyflogwyr yn gwneud cynigion recriwtio, gan gynnwys cytuno ar delerau ac amodau a dyddiadau dechrau.

## 24. Beth fydd yn digwydd os na allaf ddod o hyd i swydd?

Bydd yn ofynnol i chi ddangos eich bod wedi gwneud ymdrech resymol i sicrhau cyflogaeth ond, os na fyddwch wedi cael swydd ymhen tri mis ar ôl cwblhau eich cwrs, neu'n gynharach na hynny os bydd gennych bryderon gwirioneddol ynglŷn â chyfleoedd gwaith, gallwch gysylltu â thîm Bwrsariaeth AaGIC i drafod eich amgylchiadau a gwneud cais am adolygiad. Fel rhan o'r adolygiad, gofynnir i chi gyflwyno tystiolaeth o'ch ceisiadau am swyddi a chanlyniad pob cais. Caiff nifer y swyddi y byddwch wedi gwneud cais amdanynt ei ystyried ochr yn ochr â nifer y swyddi gwag a hysbysebir yn y proffesiwn y byddwch wedi eich hyfforddi ynddo ledled Cymru.

Os nad ydych wedi sicrhau swydd yng Nghymru o fewn tri mis o gymhwyso, efallai y bydd angen estyniad arnoch i roi mwy o amser i chi ddod o hyd i gyflogaeth. Bydd estyniadau o'r fath yn cael eu rheoli fesul achos a bydd manylion penodol yn cael eu hystyried, fel pryd y dechreuoch chi wneud cais am swyddi a faint o swyddi sydd wedi'u hysbysebu yn eich proffesiwn o fewn y cyfnod perthnasol o amser.

Os bydd eich cwrs yn defnyddio'r Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr i'ch helpu i ddod o hyd i swyddi, bydd disgwyl i chi ddefnyddio'r broses hon. Ar ôl hynny, os byddwch yn dal heb gael cynnig pendant, gallwch wneud cais am adolygiad drwy e-bostio heiw.bursary@wales.nhs.uk. Fel rhan o'r broses adolygu (ffurflen

Cais am Adolygiad) gofynnir i dîm y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr gadarnhau eich bod wedi cymryd rhan yn y Cynllun yn llawn ac na fu modd eich paru â swydd.

**25. Os byddaf yn cael fy rhyddhau ac yna'n sicrhau swydd yng Nghymru yn y dyfodol, a fydd y cyfnod gofynnol yn dal yn berthnasol?**

Os cewch eich rhyddhau o gyfnod gofynnol y Fwrsariaeth, ni fydd disgwyl i chi weithio yng Nghymru. Fodd bynnag, os bydd swyddi addas ar gael, ac os byddwch yn dewis ymgymryd â swydd yng Nghymru, ni fyddwch yn ddarostyngedig i gyfnod gofynnol y Fwrsariaeth.

**26. Pryd y byddaf yn gwybod pryd y daw fy nghyfnod gofynnol i ben?**

Pan fyddwch wedi dod o hyd i waith yng Nghymru ac wedi cyflwyno tystiolaeth o'ch dyddiad dechrau i dîm y Fwrsariaeth, bydd y tîm yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi pryd y bydd eich ymrwymiad i'r Telerau ac Amodau yn dechrau ac yn dod i ben. Caiff hyn ei gyfrifo yn dibynnu ar hyd y cwrs y byddwch wedi'i gwblhau a dyddiad dechrau eich cyflogaeth. Cyn hyn, bydd gofyn i chi lenwi holiadur ymadael ac, ar ôl iddo gyrraedd y tîm, caiff llythyr cadarnhad ei anfon atoch. Sylwer mai dim ond yr amser y byddwch yn ei dreulio'n gweithio fel gweithiwr proffesiynol cofrestredig a fydd yn cyfrif tuag at eich cyfnod gofynnol yn unol â Thelerau ac Amodau'r Fwrsariaeth; ni fydd unrhyw amser a dreulir yn gweithio mewn rôl nad oes angen bod wedi eich cofrestru i'w chyflawni, fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd band 4, yn cyfrannu at gwblhau eich cyfnod gofynnol.

Lle bo modd, mae AaGIC yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o'ch cyflogaeth cyn gynted â phosibl ac fan bellaf ym mis Ionawr y flwyddyn yn dilyn cwblhau eich cwrs. Lle nad yw hyn yn bosibl e.e. oherwydd cwblhau cwrs yn hwyr neu os ydych chi'n parhau i chwilio am swydd, mae AaGIC yn disgwyl i chi ymgysylltu â'r Tîm Bwrsariaethau i gytuno ar amserlenni priodol.

**27. Oes rhaid i mi gwblhau'r cyfnod gofynnol os ydw i eisiau parhau i astudio ar ôl cwblhau'r cwrs y cefais y fwrsariaeth ar ei gyfer?**

Bydd cyfnod gofynnol myfyrwyr sy'n dechrau rhaglen Meddygaeth Mynediad i Raddedigion (GEM) yn cael ei ohirio. Os bydd myfyriwr, am unrhyw reswm, yn gadael y Rhaglen GEM o fewn y ddwy flynedd gyntaf, disgwylir iddynt gofrestru a dychwelyd i ymarfer yn eu disgyblaeth israddedig wreiddiol (y rhaglen y derbyniasant y fwrsariaeth ar ei chyfer) a chwblhau'r cyfnod gofynnol mewn cyflogaeth yng Nghymru. Os bydd

myfyriwr yn gadael y rhaglen GEM o fewn y cyfnod o ddwy flynedd ac yn dewis peidio â dychwelyd i ymarfer, byddai'n ofynnol iddynt ad-dalu'r ffioedd dysgu a dalwyd fel rhan o Fwrsariaeth GIG Cymru. Os bydd myfyriwr yn cwblhau dwy flynedd gyntaf y GEM, byddai eu cyfnod gofynnol wedi'i gyflawni.

## *Adran 3. Cydymffurfio â Thelerau ac Amodau'r Fwrsariaeth*

Byddai'n syniad da cysylltu â thîm Bwrsariaeth AaGIC os bydd gennych unrhyw amheuon ynglŷn â'ch gallu i gydymffurfio â Thelerau ac Amodau'r Cynllun Bwrsariaeth.

**28. Os byddaf yn newid cyflogaeth yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, a fydd unrhyw oblygiadau i hyn?**

Cyn belled â bod y swydd y byddwch yn newid iddi yn cael ei hystyried yn gyflogaeth addas, yn parhau i fod wedi'i lleoli yng Nghymru yn y proffesiwn y byddwch wedi cael eich hyfforddi ar ei gyfer, ac am gyfanswm (a all gynnwys mwy nag un rôl sy'n cael ei hystyried yn gyflogaeth addas) o 22.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd, ni fydd eich ymrwymiad i Delerau ac Amodau'r Fwrsariaeth yn newid. Bydd angen i chi roi gwybod i dîm Bwrsariaeth AaGIC a fydd yn diweddaru ei gofnodion er mwyn cadw mewn cysylltiad â chi ac, os daw eich cyflogaeth i ben, bydd angen addasu eich dyddiad cwblhau terfynol. Os byddwch yn ansicr, holwch dîm Bwrsariaeth AaGIC.

## *Adran 4. Sut i Wneud Cais am Adolygiad o'ch Amgylchiadau*

**29. Os byddaf yn mynd yn sâl ac yn methu â gweithio yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl graddio, beth fydd y goblygiadau i mi?**

Bydd angen i chi lenwi ffurflen Cais am Adolygiad AaGIC. Yn y lle cyntaf, byddem yn mynd ati i asesu pa gymorth, os o gwbl, y byddwch wedi'i gael gan eich cyflogwr a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i'ch helpu i aros yn y gwaith a gwella eich iechyd corfforol a/neu eich iechyd meddwl.

**30. Os bydd gen i gyfrifoldebau gofalu a fydd yn fy atal rhag gweithio yng Nghymru, beth y dylwn ei wneud?**

Os bydd eich dyletswyddau gofalu’n cynyddu neu'n newid ar ôl i chi dderbyn y Fwrsariaeth, gall hyn ei gwneud hi'n anodd i chi dderbyn swydd neu barhau i weithio yng Nghymru. Os felly, neu os byddwch yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu newydd neu fwy sylweddol ar ôl graddio, gallwch wneud cais am adolygiad drwy lenwi'r ffurflen Cais am Adolygiad.

**31. A gaf fy rhyddhau o’r cyfnod gofynnol os caiff fy nghais am adolygiad ei gymeradwyo?**

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau a’r rhesymau dros eich cais am adolygiad, bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth i ategu unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni mewn perthynas â’ch adolygiad. Fel rhan o’r broses adolygu, gall y penderfyniadau canlynol gael eu gwneud:

- mae'n bosibl y cewch estyniad ar yr amser a gewch i chwilio am swydd a’r cymorth a gewch i ddod o hyd i gyflogaeth addas
- mae’n bosibl y bydd angen i chi ad-dalu costau ffioedd dysgu'r Cynllun Bwrsariaeth
- Os bydd AaGIC yn fodlon eich bod wedi gallu dangos tystiolaeth na allwch fodloni eich gofyniad i weithio yng Nghymru, mae’n bosibl y cewch eich rhyddhau o’ch rhwymedigaethau cytundebol

Bydd AaGIC yn ystyried rhyddhau unigolion o'u hymrwymiadau fesul achos unigol. Amgylchiadau a all fod yn briodol ac y gallwch gyflwyno tystiolaeth ohonynt:

- dim digon o swyddi addas ar gael yng Nghymru. Sylwer y bydd yn ofynnol i chi gyflwyno tystiolaeth eich bod wedi gwneud ymdrechion rhesymol i wneud cais am swydd a chanlyniad pob cais. Caiff ceisiadau sy’n ymwneud â phrinder swyddi addas eu hadolygu ochr yn ochr â nifer y swyddi a hysbysebir yn y proffesiwn perthnasol
- gwnaethoch ymgysylltu’n llawn â’r broses recriwtio a drefnwyd gan AaGIC a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer eich proffesiwn ond rydych heb eich penodi i swydd o hyd (bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn rhannu gwybodaeth recriwtio’r Cynllun Symleiddio ag AaGIC)

- ni allwch ymgymryd â swydd rydych wedi eich hyfforddi ar ei chyfer oherwydd salwch na ellir ei wella na'i reoli dros gyfnod o amser a fyddai'n eich galluogi i barhau i weithio neu ddechrau gweithio
- cyfrifoldebau gofalu am aelod o'r teulu agos a ddechreuodd neu a newidiodd y tu hwnt i'ch rheolaeth yn ystod eich astudiaethau ac a fyddai'n cyfyngu ar eich gallu i barhau i weithio neu ddechrau gweithio yng Nghymru

Os byddwch yn credu eich bod yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf hyn, bydd yn rhaid i chi wneud Cais am Adolygiad. Bydd yn ofynnol i chi gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau eich amgylchiadau.

### 32. Faint o amser y bydd y broses adolygu yn ei gymryd?

Bydd AaGIC yn ceisio cwblhau adolygiadau o fewn 28 diwrnod ar ôl cael digon o wybodaeth i gwblhau'r adolygiad. Mae'n bosibl y byddwn yn ymateb gan ofyn am dystiolaeth bellach a allai ymestyn yr amser a gymerir i gwblhau eich adolygiad. Caiff canlyniad yr adolygiad ei rannu â chi yn ysgrifenedig.

### 33. Beth os na fyddaf yn cytuno â chanlyniad yr adolygiad?

Os na fyddwch yn cytuno, gallwch wneud cais am apêl yn erbyn penderfyniad yr adolygiad. Mae gwybodaeth am y polisi apeliadau, canllawiau ar sut i apelio, a'r ffurflen Cais am Apêl i gyd ar gael yma Polisi Apeliadau'r Fwrsariaeth. Caiff y broses hon ei rheoli yn unol â phrosesau apelio eraill AaGIC.

### 34. Beth fydd y broses os bydd angen i mi ad-dalu elfen o'r Fwrsariaeth?

Os bydd angen i chi ad-dalu eich Bwrsariaeth yn llawn neu ran ohoni, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â thîm Bwrsariaeth AaGIC yn heiw.bursary@wales.nhs.uk. Bydd AaGIC yn ystyried ceisiadau am gyfnod ad-dalu estynedig yn ôl ei ddisgresiwn, ar yr amod y bydd yn ofynnol i chi gysylltu ag elusen/sefydliad cynghori ar ddyledion i weithio gyda chi er mwyn sefydlu cynllun ad-dalu fforddiadwy. Caiff y cynllun ad-dalu ac unrhyw newidiadau y gofynnir amdanynt yn ystod oes y cynllun eu hystyried fesul achos unigol.

Gweler Atodiad 3 am fanylion y symiau ad-daladwy.

## Atodiad 1

**Os na ddaethoch o hyd i'r ateb i'ch ymholiad yn y cwestiynau uchod, efallai y bydd y pwyntiau cyswllt canlynol o ddefnydd i chi:**

**Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, y dystiolaeth y bydd angen i chi ei chyflwyno, neu eich cymhwysedd, edrychwch ar dudalennau gwybodaeth y Gwasanaeth Dyfarniadau Myfyrwyr – Gwasanaeth Dyfarniadau Myfyrwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.**

**Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am eich cydymffurfiaeth â Thelerau ac Amodau'r Fwrsariaeth, cysylltwch â ni'n uniongyrchol yn heiw.bursary@wales.nhs.uk.**

Prosiect Myfyrwyr Nyrsio Cyn-gofrestru Rhyngwladol

Sut i wneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru

Bwrsariaeth y GIG – AaGIC

Canllaw i Ddeall Bwrsariaeth GIG Cymru

Pwy sy'n gymwys i gael cyllid gradd Meistr ôl-raddedig | Cyllid Myfyrwyr Cymru

StudentLogin | NHSStudents

Ffurflen Cais am Adolygiad

Porth Gyrfaoedd y GIG

Polisi Apeliadau'r Fwrsariaeth

## Atodiad 2: Cyrsiau Addysg Iechyd a Lleoliad y Ddarpariaeth

Rhestr o gyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, drwy GIG Cymru, a'r rhai sy'n derbyn cyllid llawn drwy'r Cynllun yn dilyn asesiad, ac sydd felly'n ddarostyngedig i'r ymrwymiad i weithio yng Nghymru ar ôl cwblhau cwrs addysg iechyd.

| CWRS | MATH A HYD | DARPARWR PRESENNOL |
|---|---|---|
| **PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD** | | |
| **Deieteg** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam |
| | Diploma i Raddedigion – Amser Llawn | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **Therapi Galwedigaethol** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam<br>Prifysgol Abertawe |
| | BSc – Rhan-amser | Prifysgol Wrecsam<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| | Diploma i Raddedigion / MSc – Amser Llawn | Prifysgol Caerdydd |
| **Gwyddoniaeth Barafeddygol** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Wrecsam<br>Prifysgol Abertawe |
| **Ffisiotherapi** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam |
| | BSc – Rhan-amser | Prifysgol De Cymru |
| | Diploma i Raddedigion / MSc – Amser Llawn | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd |
| **Podiatreg** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **Therapi Iaith a Lleferydd** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam |
| **GWYDDOR GOFAL IECHYD: Rhaglen Hyfforddi Ymarferwyr** | | |
| **Awdioleg** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Abertawe |
| **Ffisioleg Gardiaidd** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Abertawe |
| **Peirianneg Glinigol (Peirianneg Feddygol ac Adsefydlu)** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Abertawe |

| | | |
|---|---|---|
| **Radiograffeg Ddiagnostig** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd |
| **Gwyddor Bywyd – Gwaed, Heintiau, Cellau a Geneteg** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **Niwroffisioleg** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Abertawe |
| **Meddygaeth Niwclear** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Abertawe |
| **Ffiseg Radiotherapi** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Abertawe |
| **Ymarfer Adrannau Llawdriniaethau** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Wrecsam<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| **Radiotherapi ac Oncoleg** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Caerdydd |
| **Gwyddor Anadlu a Chysgu** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Abertawe |
| **NYRSIO A BYDWREIGIAETH** | | |
| **Oedolion** | BSc / BN – Amser Llawn | Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| | BSc / BN – Rhan-amser (Mae Bwrsariaeth ran-amser ar gael, ond caiff y rhan fwyaf o fyfyrwyr eu cyflogi gan y GIG gyda chyllid ôl-lenwi cyflog) | Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru<br>Prifysgol Wrecsam |
| | MSc / Diploma i Raddedigion – Amser Llawn | Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| **Plant** | BSc / BN – Amser Llawn | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| | MSc / Diploma i Raddedigion – Amser Llawn | Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Iechyd Meddwl** | BSc / BN – Amser Llawn | Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| | BSc / BN – Rhan-amser (Mae Bwrsariaeth ran-amser ar gael, ond caiff y rhan fwyaf o fyfyrwyr eu cyflogi gan y GIG gyda chyllid ôl-lenwi cyflog) | Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol Wrecsam |
| | MSc / Diploma i Raddedigion – Amser Llawn | Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Wrecsam<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| **Bydwreigiaeth** | BSc / BN – Amser Llawn | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| **Anabledd dysgu** | BSc / BN – Amser Llawn | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| **Nyrsio Gwasgaredig** | BSc – Amser Llawn (Caiff rhai myfyrwyr eu cyflogi gan y GIG gyda chyllid ôl-lenwi cyflog) | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Abertawe |
| **Nyrsio o Bell** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Bangor |
| **ARALL** | | |
| **Hylendid a Therapi Deintyddol** | BSc – Amser Llawn | Prifysgol Caerdydd |
| **Hylendid Deintyddol** | Tystysgrif Addysg Uwch – Amser Llawn | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd |
| **Cydymaith Meddygol** | MSc / MPAS – Amser Llawn | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Abertawe |

## Atodiad 3

**AMSERLEN AD-DALU YN UNOL Â CHYTUNDEB ARIANNU CYNLLUN BWRSARIAETH GIG CYMRU**

| | Swm y Cyllid i'w Ad-dalu | |
|---|---|---|
| | Cwrs 3 Blynedd | Cwrs 2 Flynedd |
| **1. Cwblhau cwrs addysg iechyd ond peidio â gweithio yng Nghymru yn unol â chymalau 10.1, 10.3 a 12.1.2 Telerau ac Amodau'r Fwrsariaeth.** | £25,500 | £17,000 |
| **2. Gadael cyflogaeth addas fel y'i nodir yng nghymalau 10.4 a 12.1.3 Telerau ac Amodau'r Fwrsariaeth cyn cyflawni'r ymrwymiad cyflogaeth.** | | |
| **i.** Wedi gadael yn y chwe mis cyntaf | £25,500 | £17,000 |
| **ii.** Wedi gadael ar ôl chwe mis ond cyn cwblhau blwyddyn o wasanaeth | £19,125 | £12,750 |
| **iii.** Wedi gadael ar ôl blwyddyn ond cyn cwblhau 18 mis o wasanaeth | £12,750 | £8,500 |
| **iv.** Wedi gadael ar ôl 18 mis ond cyn cwblhau dwy flynedd o wasanaeth | £8,500 | DIM |
| **v.** Wedi gadael ar ôl dwy flynedd o wasanaeth | DIM | DIM |
| **3. Trosglwyddo opsiynau ariannu ar ganol y cwrs addysg iechyd fel y nodir yng nghymalau 9.2 y Telerau ac Amodau.** | | |
| **i.** Yn ystod neu ar ddiwedd blwyddyn gyntaf eich cwrs addysg iechyd, gallwch ddewis naill ai a) ad-dalu'r swm o £8,500 neu b) gweithio mewn cyflogaeth addas yng Nghymru am wyth mis ar ôl cwblhau eich cwrs addysg iechyd. | £8,500 | £8,500 |
| **ii.** Yn ystod neu ar ddiwedd ail flwyddyn eich cwrs addysg iechyd, gallwch ddewis naill ai: **a)** ad-dalu'r swm o £17,000 neu **b)** gweithio mewn cyflogaeth addas yng Nghymru am 18 mis ar ôl cwblhau eich cwrs addysg iechyd. | £17,000 | £17,000 |